# Cofnodion heb eu Cadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru
**7 Mehefin 2021 am 14:00**
**Ystafell 3.7 Capital Quarter a thrwy Microsoft Teams**

WEDI'I GADARNHAU

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| Dyfed Edwards | (DE) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| | | |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Andrew Cottom | (AC) | Cynghorydd Annibynnol |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Angela Fisher | (AF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |
| Jason Garcia | (JG) | Archwilio Cymru |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Clare James | (CJ) | Archwilio Cymru |
| Lucy Jugessur | (LJ) | Rheolwr Archwilio Cyllid, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Martyn Lewis | (ML) | Archwilydd, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Jane Matthews | (JM) | Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol |
| Helen Seeby | (HS) | Archwilio Cymru |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | (AM) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd Fforwm Partneriaeth y Staff |

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00

**ACGC 144/2021 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb i'r cyfarfod, a gynhaliwyd yn electronig oherwydd yr ymateb parhaus i'r Coronafeirws a'r Canllawiau Cenedlaethol sydd ar waith, ac a recordiwyd drwy Microsoft Teams.

**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb**.**

**ACGC 145/2021 Datgan Buddiannau**

Cadarnhaodd DE y cyfeiriwyd at yr holl Swyddogion Gweithredol ac Anweithredol yn yr Adroddiad Tâl a Staff. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol at y rhai a ddatganwyd eisoes ar y gofrestr.

**ACGC 146/2021 Adroddiadau Diwedd y Flwyddyn / Datganiadau Ariannol a Llywodraethu Blynyddol**

**146.1/2021 Datganiadau a Chyfrifon Ariannol Blynyddol Drafft 2020/21**

Nododd y Pwyllgor y Cyfrifon Drafft ar gyfer 2020/21 (cyf 3.1 ACGC.07621). Nododd HG fod y Pwyllgor wedi cael cyflwyniad manwl ar y cyfrifon drafft yn ei gyfarfod ar 5 Mai 2021. Ers y cyfarfod hwnnw, cyflwynwyd y cyfrifon drafft i Archwilio Cymru er mwyn eu harchwilio.

Ailadroddodd HG yr heriau o ran y cyfrifon eleni, yn sgil y cynnydd sylweddol yn nifer y trafodion o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, a chrynhodd y materion a oedd yn ymwneud yn benodol â gwirio stoc a phrisio (COVID-19).

Amlygodd JM ac AF rai o'r ffigurau amlwg yn y Cyfrifon sy'n dangos y cynnydd sylweddol yn y trafodion blynyddol a'r asedau cyfalaf.

Diolchodd HG i'r tîm cyfrifon ariannol ac Archwilio Cymru am y ffordd y cafodd y cyfrifon eu cwblhau eleni, a'r dull o gydweithio a fabwysiadwyd.

Ailbwysleisiodd HG yr heriau o ran cyfrif stoc; roedd natur y profi, gyda samplau prawf annilys, a'r ffaith bod y stoc yn y labordy'n cael ei ddefnyddio ar yr un pryd â'r cyfrif stoc, yn golygu bod tîm Archwilio Cymru wedi gallu cysoni'r data o fewn £200,000; o gofio cyfanswm gwerth y stoc, roedd hyn yn gymesur ac yn dderbyniol. Amlygodd Archwilio Cymru hyn yn ei Ddatganiad Barn fel addasiad posibl; nid oedd HG yn argymell y dylid gwneud yr addasiad hwn, ar

WEDI'I GADARNHAU

sail y ffaith bod y sefydliad wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol a'i fod yn cydymffurfio â llawllyfr Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifon. Cafodd y cyllid hwn ei ad-dalu hefyd gan Lywodraeth Cymru.

Nododd AC ei fod yn cefnogi argymell y cyfrifon i'r Bwrdd i'w cymeradwyo, a chefnogodd argymhelliad HG i beidio â gwneud yr addasiad i'r ffigur stoc.

Gofynnodd MM am eglurhad ynghylch lefelau rhwymedigaeth y cronfeydd wrth gefn. Eglurodd HG fod hyn yn ymwneud â meysydd lle roedd gennym rwymedigaethau cyfreithiol a rhwymedigaeth i dalu, fel cost yr Ymchwiliad Cyhoeddus yn y dyfodol. Ychwanegodd JM, o ran yr incwm dros ben a gedwir, bod y gwarged a adroddwyd yn £32,000; roedd dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o 3 blynedd ac roedd y gwarged bach hwn yn rhoi hyblygrwydd i ni ar gyfer y sefyllfa fantoli.

Diolchodd TC i'r Tîm Cyllid ac AC am eu gwaith mewn blwyddyn ddigynsail.

Canmolodd JW y Tîm Cyllid ac AC ar ran y Bwrdd am y ffordd y cafodd y cyfrifon eu cwblhau eleni a chroesawodd y defnydd parhaus o ddulliau newydd o gydweithio rhwng y ddau sefydliad.

Mynegodd DE ar ran y Pwyllgor ei ddiolch i HG a'r holl dîm cyllid am eu gwaith ar gwblhau'r cyfrifon eleni. Cydnabu DE hefyd y gwaith llywodraethu da a ddangoswyd drwy'r adroddiadau cyllid rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a alluogodd y Pwyllgor i gymryd sicrwydd ynghylch y gwaith cyffredinol o reoli cyllid o fewn y sefydliad.

Fe wnaeth y Pwyllgor
- **Gytuno i argymell** y Cyfrifon ar gyfer 2020/21 i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.
- **Nodi** y byddai'r Cyfrifon, ar ôl i'r Bwrdd eu cymeradwyo, yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 11 Mehefin 2021

| **146.2/2021** | **Adroddiad Atebolrwydd Drafft 2020/21** |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad Atebolrwydd Drafft ar gyfer 2020/21 (cyf 3.2a, 2b, 2c ACGC.07621). Dywedodd LB wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad drafft wedi'i ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 5 Mai 2021, cyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru i'w adolygu.

Nododd LB fod crynodeb o'r newidiadau a wnaed yn yr adroddiadau o ganlyniad i sylwadau gan Archwilio Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Ymchwilio Mewnol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad eglurhaol. Cyfeiriodd y Pwyllgor at fân gamgymeriadau teipograffyddol yn yr adroddiad, a chytunodd LB i gywiro'r rhain cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd DE i'r rhai a fu'n ymwneud â'r gwaith o baratoi'r Adroddiad Atebolrwydd.

WEDI'I GADARNHAU

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Gytuno i **argymell** Adroddiad Atebolrwydd 2020/21 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd**;**
- **Nodi** y byddai'r adroddiad, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 11 Mehefin 2021.

| **146.3/2021** | **Barn Flynyddol Archwilio Cymru (ISA 260)** |
| --- | --- |

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Archwilio Cyfrifon Archwilio Cymru ar gyfer 2020/21 (cyf 3.3 ACGC 070621). Hysbysodd CJ y Pwyllgor fod AC yn cyflwyno Adroddiad Archwilio Diamwys gyda Nodyn Pwyslais ar Fater – nodyn a gyflwynwyd i holl gyrff y GIG eleni.

Hysbysodd JG y Pwyllgor am ddau faes i'w hamlygu: heriau i sicrhau'r gwaith o gysoni prisiad y stoc, fel yr amlinellwyd gan HG yn ei gyflwyniad, a rhwymedigaethau treth y clinigwyr.

Gofynnodd JW sut y mae'r hyn a ddysgwyd o'r broses eleni yn cael ei gofnodi. Cynghorodd JG a CJ y Pwyllgor fod adolygiad mewnol o'r broses wedi'i gynllunio i sicrhau y byddai unrhyw beth a ddysgwyd o'r broses yn cael ei nodi, ac y byddai hyn yn cael ei drafod gyda HG a'r tîm cyllid.

Ar ran y Pwyllgor, mynegodd DE ei ddiolch i dîm Archwilio Cymru am ei waith yn ystod cyfnod heriol i gwblhau'r adroddiadau diwedd y flwyddyn.

**Nododd** y Pwyllgor fod Archwilio Cymru yn bwriadu cyflwyno Adroddiad Archwilio Diamwys ar y datganiadau cyllid.

| **146.4/2021** | **Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2020/21** |
| --- | --- |

Derbyniodd y Pwyllgor Farn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2020/21 (cyf 3.4 ACGC 070621)

Nododd PD yr adroddiad drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Mai 2021, ac amlygodd y newidiadau i gynnwys cyfeiriad at yr adroddiad drafft ynghylch gordaliadau goramser Oriau Ychwanegol, a gyflwynwyd gyda barn sicrwydd cyfyngedig. Roedd y lefel sicrwydd rhesymol cyffredinol yn parhau i fod wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol terfynol.

Diolchodd DE i PD a'i dîm am y gwaith a wnaed eleni.

Nododd TC y statws sicrwydd cyfyngedig ar gyfer taliadau Oriau Ychwanegol a Goramser, a chadarnhaodd y byddent yn mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd gan yr archwiliad ac y byddai camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn o fewn y terfynau amser a gytunwyd.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o Farn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.

WEDI'I GADARNHAU

**ACGC 147/2021 Cynnydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i Adroddiadau**

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Barhad Busnes TG (cyf 4 ACGC 070621), a gafodd sgôr sicrwydd rhesymol, gyda manylion pedwar argymhelliad wedi'u cynnwys yn Atodiad A - un â risg canolig a thri â risg isel. Rhoddodd ML sicrwydd i'r Pwyllgor fod arferion da wedi'u nodi drwy'r adroddiad.

Gofynnodd MM am eglurhad yn yr adroddiad ynghylch yr eirfa a ddefnyddiwyd ynghylch colli data. Eglurwyd bod hyn yn gysylltiedig â cholli data yn barhaol oherwydd methiant i wneud copïau ohonynt. Cytunodd PD i egluro'r geiriad o fewn yr adroddiad terfynol mewn perthynas â cholli data er eglurder.
**Cam gweithredu - PD**

Diolchodd DE i'r tîm TG am ei waith drwy gydol y flwyddyn, a amlygwyd yn yr adroddiad hwn.

**ACGC 148/2021 Cofnodion, Cofnod o'r Camau Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod blaenorol**

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf (cyf. 5. ACGC.070621). Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Ystyriodd y Pwyllgor y cofnod o'r camau gweithredu a **chytunodd** i gau'r tri phwynt gweithredu.

**ACGC 149/2021 Materion gweinyddol i gloi**

**149.1/2020 Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Mercher, 15 Medi 2021, 09:30, Ystafell 3.7 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Capital Quarter a thrwy Microsoft Teams

**149.2/2020 Cyhoeddi Papurau**

**Nododd** y Pwyllgor bapurau'r Pwyllgor, ac **eithrio'r** Cyfrifon y byddai'n rhaid eu gosod gerbron Llywodraeth Cymru cyn eu cyhoeddi.

**149.3/2020 Adborth y Pwyllgor**

Diolchodd JW i DE am ei waith yn Cadeirio'r Pwyllgor yn ystod y 12 mis blaenorol, gan gyfeirio at ei ddull cadeirio cynhwysol.

Diolchodd DE i bawb am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfod, a diolchodd i Uned Fusnes y Bwrdd am y gefnogaeth a gafodd y Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn.

Daeth y Cyfarfod i ben am 15:38

WEDI'I GADARNHAU